Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Mark Jones
Pennaeth
Coleg Gŵyr Abertawe
Tŷ Coch Road
Tŷ Coch
Abertawe
SA2 9EB

Awst 2014

Annwyl Mr Jones

**Adroddiad Estyn ar Adolygiad Blynyddol o Berfformiad ar gyfer Coleg Gŵyr Abertawe**

Yn dilyn yr ymweliad â'ch sefydliad ar 6 i 8 Mehefin 2014 ynghylch yr Adolygiad Blynyddol o Berfformiad, mae'r llythyr hwn yn adroddiad blynyddol sydd wedi'i seilio ar ddeilliannau'r ymweliad hwnnw. Cyhoeddir y llythyr ar wefan Estyn.

Bu Mark Evans AEM a Bernard Hayward AEM yn arfarnu perfformiad presennol y sefydliad ac yn adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion sy'n deillio o arolygiadau blaenorol. Cynhaliont drafodaethau gyda'r pennaeth ac uwch reolwyr, tiwtoriaid, dysgwyr ac aelodau o'r corff llywodraethol. Buont yn craffu ar ddogfennau, gan gynnwys tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r argymhellion arolygu blaenorol. Hefyd, buont yn ystyried ansawdd yr addysgu a'r dysgu trwy deithiau dysgu a chraffu ar addysgu'r sefydliad addysg uwch a'i broses arsylwi dysgu.

Ar ddiwedd yr ymweliad, adroddodd yr arolygwyr cyswllt eu canfyddiadau i'r pennaeth ac i aelodau eraill yr uwch dîm arwain.

**Canlyniad yr ymweliad gan yr arolygwyr cyswllt**

Ers arolygu Coleg Gŵyr Abertawe yn Ionawr 2012, mae'r coleg wedi gwneud cynnydd da yn mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion a adawyd gan y tîm arolygu.

**1 Deilliannau a safonau**

Mae bron hanner y dysgwyr sy'n mynychu'r coleg yn dod o ardaloedd gyda mynegai difreintedd uchel. Mae'r holl ddata am y cyrsiau ar draws y tri maes sef cwblhau,

cyrhaeddiad a llwyddiant, yn dangos bod deilliannau dysgwyr wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf.

Ar draws y coleg, mae tuag 80% o'r ymrestriadau yn rhai ar gyfer cyrsiau hir. Ar y rhan fwyaf o'r cyrsiau hyn, mae'r coleg wedi cyflawni tuedd gynyddol ar gyfer yr holl ddangosyddion data dros y tair blynedd diwethaf. Yn y cyfnod 2012 i 2013, fe wnaeth y coleg ostwng yn sylweddol nifer y meysydd dysgu a oedd yn perfformio islaw'r cymharydd cenedlaethol. Mewn ychydig achosion, mae gormod o amrywiaeth rhwng perfformiad cyrsiau mewn gwahanol feysydd dysgu pwnc.

Mae gan y coleg nifer uchel o ddysgwyr sy'n dilyn cyrsiau Safon Uwch ac mae'r rhain yn cyfrif am ryw 37% o ddysgwyr ar gyrsiau hir yn gyffredinol. Mae'r cyrsiau hyn yn perfformio'n dda, gydag 89% o ddysgwyr yn ennill eu cymwysterau.

Mae bron pob un o'r dysgwyr ar gyrsiau byr yn cwblhau eu cymwysterau'n llwyddiannus.

## 2 Medrau Hanfodol

Mae cyflwyno cyrsiau Sgiliau Hanfodol Cymru wedi cael ei wella'n ddiweddar ac mae hyn wedi helpu i wella cyfraddau llwyddo dysgwyr sydd bellach tua'r cyfartaledd ar gyfer y sector hwn. Mae cynlluniau clir gan y coleg i wneud gwelliannau pellach i'w ddull o gyflwyno Sgiliau Hanfodol Cymru trwy newidiadau sefydliadol diweddar a thrwy benodi uwch aelod staff newydd. Yn rhan o'r datblygiadau hyn, mae ffocws cryfach gan y coleg ar hyfforddi staff i gyflwyno Sgiliau Hanfodol Cymru. Mae gan y coleg gynllun marcio pwrpasol sydd wedi'i ddefnyddio dros y 12 mis diwethaf a bydd yn cael ei gyflwyno i bob maes dysgu ym Medi 2014.

Mae dysgwyr y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael eu cefnogi'n dda. Mae'r coleg wedi gwella'r dull o drosglwyddo gwybodaeth gan bartneriaid allanol am anghenion penodol dysgwyr ag ADY ac, erbyn hyn, mae'n gwneud trefniadau priodol cyn i ddysgwyr gyrraedd y coleg. Yn ogystal, mae'r coleg wedi gwella'i drefniadau pontio ar gyfer dysgwyr sy'n ymuno â chyrsiau o ysgolion arbennig.

## 3 Addysgu ac asesu

Mae'r coleg yn defnyddio ystod dda o strategaethau i wella addysgu ac asesu. Mae strategaeth addysgu, dysgu ac asesu ddefnyddiol a chynllun gweithredu yn sylfaen i nod y coleg o gyflawni rhagoriaeth ar draws mwyafrif ei ddarpariaeth. Erbyn hyn, mae ffocws mwy miniog ar wella safon addysgu ac asesu'n barhaus. Fe wnaeth arolygiadau 'ffug' a gwblhawyd yn ddiweddar o bob maes dysgu ddarparu tystiolaeth uniongyrchol o ansawdd yr addysgu ac asesu ar draws y coleg. Nodwyd arfer dda ac fe'i rhannwyd gyda staff ar draws meysydd dysgu. Mae rheolwyr meysydd dysgu wedi cael cefnogaeth a her gan uwch reolwyr i wella addysgu a dysgu ymhellach. Er enghraifft, ystyrir fod arloesi yn agwedd allweddol ar wella addysgu a dysgu ac mae'r coleg yn annog staff yn rhagweithiol i archwilio dulliau newydd.

## 4 Y cwricwlwm

Mae’r coleg yn defnyddio amrywiaeth dda o wybodaeth am y farchnad lafur a gwybodaeth arall i gynllunio a chyflwyno cwricwlwm priodol. Mae wedi datblygu cysylltiadau da gydag ystod eang o gyflogwyr. Mae mwyafrif y staff ar draws y coleg wedi datblygu cysylltiadau personol da gyda diwydiant lleol. Defnyddiant y rhain yn dda i gael profiad gwaith i ddysgwyr ac i gael gwybodaeth yn ymwneud ag anghenion hyfforddi diwydiant. Arweiniodd uno’r ddau goleg etifeddol at adolygu’r cwricwlwm a chafodd cyrsiau eu trefnu fel eu bod yn cael eu cyflwyno ar y safle mwyaf priodol i gyfateb i anghenion dysgwyr. Hefyd, cafodd rhai cyrsiau eu had-drefnu fel eu bod yn cael eu cyflwyno ar un safle i osgoi dyblygu’r ddarpariaeth yn ddiangen. Mae’r coleg yn gweithio’n dda gyda chyflogwyr a diwydiant lleol i gyflwyno ystod briodol o raglenni hyfforddi.

## 5 Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae aelodau o’r tîm arwain wedi gweithio’n dda i uno’r ddau goleg etifeddol ac i annog staff i wireddu potensial y coleg newydd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae’r pennaeth wedi gosod cyfeiriad strategol a nodau clir ar gyfer y coleg ac mae uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn cydweithio’n dda i gefnogi’r nodau hyn. O ganlyniad i hyn, mae ffocws mwy miniog ar sawl agwedd ar y coleg, fel safonau dysgwyr ac ansawdd yr addysgu a’r asesu. Mae’r coleg wedi datblygu prosesau hunanasesu cynhwysfawr sydd wedi’u hymgorffori mewn meysydd dysgu ac sydd â chynlluniau gwella clir yn sail iddynt. Mae’r coleg yn gweithio’n dda i wneud yn siŵr bod staff o’r ddau goleg etifeddol yn cydweithio’n effeithiol fel rhan allweddol o’r coleg unedig. Erbyn hyn, mae’r gwaith hwn yn cael effaith gadarnhaol o ran gwella profiadau’r dysgwyr. Mae tîm rheolwyr canol y coleg yn cydweithio’n dda i weithredu nodau’r coleg. Bellach, mae ganddynt dargedau perfformiad clir sy’n cael eu hadolygu fel mater o drefn. Dangosant ddealltwriaeth dda o sut mae eu meysydd cyfrifoldeb yn perfformio a beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae’r tîm yn gweithio’n dda i nodi a rhannu arfer orau ac i herio’r holl staff i wella’u perfformiad.

Mae uwch reolwr wedi datblygu rhaglen ystadau uchelgeisiol gyda darpar bartneriaid ar lefel leol a rhanbarthol.

## 6 Arweinyddiaeth a rheolaeth (sicrhau ansawdd)

Mae’r coleg wedi cryfhau ei weithdrefnau sicrhau ansawdd ac wedi datblygu un system glir o systemau’r ddau goleg etifeddol. Mae sefydlu paneli gwella ansawdd yn galluogi cynnal adolygiad cadarn o berfformiad meysydd dysgu. Mae rheolwyr a staff ar bob lefel nawr yn defnyddio data dibynadwy i osod targedau a monitro ac adolygu perfformiad. Mae uwch reolwyr a rheolwyr canol yn dangos dealltwriaeth glir o’r hyn sy’n gweithio’n dda a’r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae

strategaethau clir a chynlluniau cadarn yn bodoli ar gyfer gwella ansawdd; mae'r rhain yn cynnwys y Strategaeth Cyrhaeddiad Llwyddiannus a'r Strategaeth Gwella Addysgu a Dysgu. Mae uwch reolwyr yn herio rheolwyr canol yn rheolaidd i sicrhau gwelliant.

## 7 Crynodeb o'r cynnydd o ran yr argymhellion a amlinellwyd yn adroddiad Ionawr 2012

Gwnaed yr argymhellion o'r adroddiad arolygu diwethaf yn Ionawr 2012. Mae'r coleg yn gwneud cynnydd cadarnhaol tuag at fodloni'r argymhellion hyn.

Mae wedi gwella cadernid y data a'i ddefnydd gan staff yn sylweddol. Bellach, mae'r coleg yn rhoi gwybodaeth a data am berfformiad dysgwyr i lywodraethwyr mewn fformat manwl a chlir ac mae staff nawr yn defnyddio'r data hwn i osod targedau a monitro ac adolygu perfformiad eu meysydd dysgu. Mae'r coleg wedi gweithredu strategaeth glir a chynllun gweithredu ar gyfer gwella deilliannau dysgwyr ym mhob maes dysgu.

Mae'r coleg wedi sefydlu perthynas dda gyda'r ysgolion yn yr ardal leol ac mae nifer y disgyblion sy'n mynd i'r coleg ar gyfer sesiynau blasu wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn, yn enwedig yn yr ysgolion 11-16 oed. Mae gan y coleg gynrychiolaeth dda ym mhob un o'r grwpiau lleol sy'n gysylltiedig â darpariaeth 14-19 oed ac mae'n darparu arweinyddiaeth ar gyfer nifer o'r grwpiau hyn. Mae wedi bod yn darparu cyllid yn rhagweithiol i gefnogi'r adolygiad diweddaraf o'r ddarpariaeth i ddysgwyr 14-19 oed yn yr ardal.

Hefyd, mae'r coleg wedi datblygu cysylltiadau da gyda diwydiant a busnes. Mae'n gweithio'n dda gyda'r sector Addysg Uwch yn y rhanbarth ac mae'n parhau i ymestyn ei ddarpariaeth ar gyfer graddau sylfaen a rhaglenni addysg uwch eraill.

Mae'r coleg wedi penodi Hyrwyddwr Dwyieithrwydd newydd yn ddiweddar a bydd yn lansio Cynllun Iaith Gymraeg newydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst. Mae grŵp llywio ar gyfer y Gymraeg yn cael ei arwain ar hyn o bryd gan y Pennaeth i oruchwylio a datblygu strategaethau yn y maes hwn. Mae staff y coleg yn gweithio'n dda i hybu manteision cymhwysedd dwyieithog i ddysgwyr ac, ar hyn o bryd, maent yn datblygu cynllun tair blynedd i hyrwyddo a chyflwyno darpariaeth y Gymraeg i ddysgwyr a staff.

Mae'r coleg yn defnyddio ystod o holiaduron ac arolygon addas i gasglu gwybodaeth gan ddysgwyr am sut i wella cyrsiau ac agweddau eraill ar y ddarpariaeth. Cwblhaodd 1,393 o ddysgwyr sy'n mynychu'r coleg arolwg llais y dysgwr yn 2013. Mae 38% o ymatebwyr o'r farn bod y coleg yn dda iawn at ei gilydd. Mae hyn ychydig uwchlaw cyfartaledd y sector, sef 35%. Mae 42% arall o'r farn bod y coleg yn dda o gymharu â chyfartaledd y sector, sef 43%. Dywedodd 34% o ddysgwyr fod eu cwrs yn well na'r disgwyl. Mae'r ymateb gorau yn arolwg llais y dysgwr ar gyfer addysg a dysgu yn y coleg, gyda 48% o'r farn ei fod yn dda iawn o gymharu â chyfartaledd y sector, sef 44%.

Mae'r coleg wedi gwneud cynnydd da yn ystod uno'r ddau goleg etifeddol.  Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae wedi dechrau ymsefydlu gweithdrefnau a rhoi mwy o bwyslais ar wella deilliannau dysgwyr a safon yr addysgu a'r dysgu.

Mae'r arolygwyr yn cytuno ag anghenion datblygu allweddol y coleg fel y'u nodir yng nghynllun strategol a chynlluniau eraill y coleg.

**Argymhelliad**

A1 Mae angen i'r coleg fynd i'r afael â'r amrywiaeth mewn perfformiad rhwng cyrsiau mewn gwahanol feysydd dysgu.

A2 Bod y coleg yn parhau i wneud cynnydd yn unol â'r hyn a amlinellwyd yn ei Gynllun Strategol sefydliadol

**Y camau nesaf**

Bydd Arolygwyr Cyswllt Estyn, Mark Evans AEM a Bernard Hayward AEM, yn parhau i fonitro cynnydd cyffredinol trwy eu rôl gyswllt gyda'r sefydliad.

Yn gywir

**Lin Howells**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol